COVID-19 Update: 14th May

Here is tonight's COVID-19 update from Cardiff Council, covering: social distancing measures will be installed on Castle Street on Sunday; putting plans in place to open the Household Waste Recycling Centres; the tuition service helping children through the crisis; library resources online; and ensuring the right choice of COVID-19 safety screens for taxis.

Social distancing measures will be installed on Castle Street on Sunday

The traffic lane next to Cardiff Castle, on Castle Street, will be removed this Sunday, May 17, so that the pavement can be extended into the road for both pedestrians and cyclists to use.

This is the first city-centre project that will be installed to keep the public safe and able to socially distance on the highway network. Earlier works were successfully introduced around Roath Park Lake creating a one-way footpath around the lake to aid social distancing as well as the removal of visitor parking bays nearest to the lake, to provide additional space for cyclists and joggers.

This new shared space will run from the Cathedral Road/Cowbridge Road junction, over Canton Bridge, along Castle Street, Duke Street and up to the North Road-Boulevard De Nantes junction.

Cllr Caro Wild, Cabinet Member for Strategic Planning and Transport said: "We have to ensure that any changes we make to roads and pavements are safe for all road users. Castle Street is the first road scheme in the city. It will be installed on Sunday and a similar scheme on Wood Street is currently being looked into.

"It's not possible for us to transform all public space in the city overnight, but we are doing all that we can, with the resources available, to bring in these social-distancing schemes as quickly as possible.

"With the significant increase in the number of people cycling and walking in the city, it is important, more than ever, for all users of public space to be respectful and mindful of others especially with vulnerable users."

When the new shared space is installed on Castle Street, it will be temporarily marked out with traffic cones. These cones will then be replaced with bolt-down pole cones.

A pilot scheme to enable social distancing in neighbourhood shopping centres will be launched at Wellfield Road, in Plasnewydd, soon. The council is currently working with businesses in the area to develop the final scheme, but it will involve removing the parking bays on either side of the road to allow the pavement to be extended to give extra space to allow social distancing measures to be followed.

Detailed planning taking place to safely open Cardiff's HWRCs as soon as possible

Cardiff Council is putting plans in place to open the Household Waste Recycling Centres (HWRC's) at Lamby Way and Bessemer Close as soon as it is safe to do so.

Detailed assessments are being carried out to ensure that both of the sites can operate with social distancing measures in place to ensure the safety of residents and staff using and working at the facilities.

An online booking system is being developed which will allow residents to book an appointment slot. This will ensure that the council can manage access to both the HWRC's more easily, reducing any traffic build up.

Residents will only be able to use the sites if they have a pre-booked appointment. Anyone without an appointment will not be able to gain access.

Cllr Michael Michael, Cabinet Member for Clean Streets, Recycling and Environment said: "I'm sure everyone understands that the safety of residents and staff has to be our first consideration. Due to the current circumstances, unfortunately, we can't just open up these facilities and operate them as we did before the lockdown was introduced.

"We have carried out a detailed health and safety risk assessment, and an equality impact assessment, which makes clear the sites have to be re-modelled to ensure a two metre distance can be maintained between residents and our staff at all times.

"We will also have less skips available at the sites, so restrictions may have to be put in place on what waste types can be brought to the HWRC's in the first instance.

"All of this detail is being worked through at the moment and I would like to reassure residents that we are working hard to open them as soon as we can and as soon as we are confident they can be operated safely. Everyone's safety is our paramount concern."

Lamby Way is an operational depot and it is therefore essential that there isn't a build-up of traffic on Rover Way which is the main route to the site. If there is an excessive traffic build up waste collection vehicles will not be able to access the site and this will significantly impact the kerbside collections to residents in the city.

Cllr Michael continued: "There is no doubt that we have to bring in an online booking system to manage traffic flow, especially for Lamby Way. Further information on how this will operate and when these facilities will re-open will be released after we are confident that the new arrangements that we are putting in place work effectively and are safe for everyone."

EOTAS Tuition Service are helping children through the crisis

The EOTAS (Education Otherwise Than At School) Tuition Service has continued to support and educate the most vulnerable children and young people in our community during the current health crisis.

The teachers and our Skills and Support Team have been in daily contact with learners and their families. Lessons and support sessions have taken place over the phone, using the internet and via WhatsApp to ensure everyone can attend them.

Activities and resources have been delivered to the doorstep for the 50% of our learners who do not have access to the internet at home. Many of our learners and their families are already isolated and have pre-existing mental health conditions so regular work, routine and contact is very important.

One parent said, “Thank you so much for the constant phone calls – they help my own mental health to have someone there looking out for us. And thank you for the arts and craft equipment and mindfulness colouring books my child was so happy to get her bag of goodies and it put a smile on her face”.

We are also supporting our Year 11’s who are applying for college and work to remain positive and optimistic.

Another parent is thrilled that their son “will achieve his dream of attending 6th form with his former school friends”.

Microsoft Teams has helped them work closely with other council teams and outside agencies including Children’s Services, Llamau, CAMHS, schools and the Cardiff Youth Service.

The Tuition Service is proud to be supporting some of our most vulnerable children at this unprecedented time and to be #WorkingForCardiff #WorkingTogether

Library resources online

A range of digital resources are available from Cardiff Hubs & Libraries Service for people to enjoy at home.

The service has free e-books, e-audio books, e-magazines, e-newspapers and ancestry resources that library members can access from their own devices.

The electronic catalogue can be accessed here:
https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/en_GB/card_en

and has resources for adults and children, including a new book (pictured above) by illustrator Axel Scheffler and a team of experts to help children and families understand COVID-19.

Residents who aren’t currently library members can also join up online via the above link.

The teams have also put together lockdown activities including rhymetimes, Hands on History resources to give people a taster of the wealth of local history and heritage e-resources that are available and ‘how to’ guides to help users get the best out of the online catalogue.

Visit the lockdown activities here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Libraries-and-archives/Pages/default.aspx

Ensuring the right choice of COVID-19 safety screens for taxis

The council is working with the taxi and private hire trade to ensure that the chosen COVID-19 screens used are safe, and do not compromise the complex safety systems found in modern vehicles.

The council has received guidelines from the Welsh Government, which outlines the standards and regulations that should be followed, and we are using this guidance to inform the choice of screen:
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/support/sector-specific-content/taxi-trade-advice

When retrospectively fitting anything into a vehicle, it is essential that it is done safely and it doesn’t compromise the integrity of the structure of the vehicle. Modern vehicles have a number of air bags and it is important that these safety measures are not damaged or compromised in anyway when fitting the screen.

Diweddariad COVID-19: 14 Mai

Yn y diweddariad COVID-19 a ddarparwyd gan Gyngor Caerdydd heno: caiff mesurau ymbellhau cymdeithasol eu gosod ar Stryd y Castell ddydd Sul; cynllunio manwl yn mynd rhagddo i agor CAGCau Caerdydd cyn gynted â phosib; mae’r Gwasanaeth Tiwtor EOTAS yn helpu plant drwy'r argyfwng; adnoddau llyfrgell ar-lein; a sicrhau’r dewis cywir o sgriniau diogelwch COVID-19 ar gyfer tacsis

Caiff mesurau ymbellhau cymdeithasol eu gosod ar Stryd y Castell ddydd Sul

Caiff y lôn draffig ger Castell Caerdydd, ar Stryd y Castell, ei chau ddydd Sul yma, 17 Mai, er mwyn ymestyn y palmant i’r heol i’w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr.

Dyma’r project cyntaf i’w roi ar waith yng nghanol y ddinas i gadw’r cyhoedd yn ddiogel a’u galluogi i gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol ar rwydwaith y briffordd. Cafodd gwaith arall ei gyflwyno'n llwyddiannus yn gynharach o amgylch Llyn Parc y Rhath a oedd yn cynnwys creu llwybr cerdded unffordd o amgylch y llyn i gynorthwyo â mesurau ymbellhau cymdeithasol, a hefyd cafwyd gwared ar y mannau parcio i ymwelwyr oedd yn agosaf at y llyn, i wneud lle ychwanegol i feicwyr a rhedwyr.

Bydd y man newydd hwn a rennir yn rhedeg o gyffordd Heol y Gadeirlan/Heol y Bont-faen, dros bont Treganna, ar hyd Stryd y Castell, Heol y Dug a hyd at gyffordd Heol y Gogledd a Boulevard de Nantes.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Caro Wild: “Mae rhaid i ni sicrhau bod unrhyw newidiadau rydym yn eu gwneud i ffyrdd a phalmentydd yn ddiogel i bawb sy’n defnyddio'r ffordd. Stryd y Castell yw’r cynllun ffordd cyntaf yn y ddinas. Caiff ei osod ddydd Sul ac rydym wrthi hefyd yn ystyried cyflwyno cynllun tebyg ar Stryd Wood.

“Mae’n amhosibl i ni weddnewid yr holl fannau cyhoeddus yn y ddinas dros nos, ond rydym yn gwneud popeth ag y gallwn, gyda’r adnoddau sydd ar gael, i gyflwyno’r cynlluniau ymbellhau cymdeithasol hyn cyn gynted â phosib.

“Gyda’r cynnydd arwyddocaol yn niferoedd y bobl sy’n beicio a cherdded i’r ddinas, mae’n bwysig, yn fwy nag erioed, fod pawb sy’n defnyddio gofod cyhoeddus yn parchu ac yn ofalgar tuag at eraill, yn enwedig at ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed.”

Pan gaiff y man newydd a rennir ei osod ar Stryd y Castell, caiff ei farcio dros dro gyda chonau traffig. Caiff y conau hyn eu hamnewid gyda chonau polyn wedi eu bolltio maes o law.

Caiff cynllun peilot ei lansio ar Welfiled Road, yn Plasnewydd yn fuan, i alluogi ymbellhau cymdeithasol mewn canolfannau siopa yn yr ardal. Mae’r cyngor wrthi’n gweithio gyda busnesau yn yr ardal i ddatblygu’r cynllun terfynol, ond bydd yn cynnwys dileu’r mannau parcio ar y naill ochr o’r ffordd i alluogi’r gwaith o ymestyn y palmant i roi ragor o le i gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol.

Cynllunio manwl yn mynd rhagddo i agor CAGCau Caerdydd cyn gynted â phosib

Mae Cyngor Caerdydd wrthi’n rhoi cynlluniau ar waith i agor Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau) ar Ffordd Lamby a Chlos Bessemer cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

Cynhelir asesiadau manwl i sicrhau y gall y ddau safle weithredu gyda mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith i sicrhau diogelwch trigolion sy’n defnyddio’r cyfleusterau a’r staff sy’n gweithio yno.

Mae system archebu ar-lein yn cael ei datblygu a bydd yn galluogi trigolion i archebu slot apwyntiad. Bydd hyn yn sicrhau y gall y cyngor reoli mynediad i’r ddwy CAGC yn haws gan leihau unrhyw draffig a allai gronni.

Dim ond os oes ganddynt apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw y gall trigolion ddefnyddio’r safleoedd. Ni fydd mynediad i unrhyw heb apwyntiad.

Dywedodd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd: “Rwy’n siŵr bod pawb yn deall bod rhaid ystyried

diogelwch ein trigolion a staff yn brif flaenoriaeth. Oherwydd yr amgylchiadau presennol, yn anffodus, ni allwn yn syml agor y cyfleusterau hyn a'u gweithredu fel y gwnaethom cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno.

"Rydym wedi cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch manwl, yn ogystal ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n ei gwneud yn glir bod rhaid ailfodelu'r safleoedd i sicrhau ei bod yn bosib cadw pellter o 2 fetr rhwng trigolion a'n staff bob amser.

"Byddwn hefyd yn cynnig llai o sgipiau, felly gall fod angen rhoi cyfyngiadau ar waith ar ba fath o wastraff y gellir dod ag ef i'r CAGC yn y lle cyntaf.

"Mae'r holl fanylion hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a hoffwn roi sicrwydd i drigolion ein bod yn gweithio'n galed i'w hagor cyn gynted ag y gallwn a phan fyddwn yn hyderus y gallant weithredu'n ddiogel. Ein prif flaenoriaeth yw diogelwch pawb."

Mae Ffordd Lamby yn ddepo gweithredol ac mae'n hanfodol felly nad yw traffig yn cronni ar Ffordd Rover sef y prif lwybr i'r safle. Os bydd gormod o draffig yn cronni, ni fydd y cerbydau gwastraff yn gallu mynd i'r safle ac fe gaiff hyn effaith sylweddol ar gasgliadau ymyl y ffordd i drigolion y ddinas.

Aeth y Cynghorydd Michael yn ei flaen i ddweud: "Does dim amheuaeth bod angen i ni gyflwyno system archebu ar-lein i reoli'r llif traffig, yn arbennig ar Ffordd Lamby. Byddwn yn rhyddhau rhagor o wybodaeth ar sut y caiff hyn ei weithredu a phryd y bydd y cyfleusterau yn ailagor ar ôl i ni gael sicrwydd bod y trefniadau newydd arfaethedig yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel i bawb."

Mae'r Gwasanaeth Tiwtor EOTAS yn helpu plant drwy'r argyfwng

Mae'r Gwasanaeth Tiwtora EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) wedi parhau i gefnogi ac addysgu'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymuned yn ystod yr argyfwng iechyd presennol.

Mae'r athrawon a'n Tîm Sgiliau a Chymorth wedi bod mewn cysylltiad â dysgwyr a'u teuluoedd yn ddyddiol. Mae gwersi a sesiynau cymorth wedi'u cynnal dros y ffôn, gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a thrwy WhatsApp i sicrhau bod pawb yn gallu eu mynychu.

Mae gweithgareddau ac adnoddau wedi'u danfon i gartrefi'r 50% o'n dysgwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd gartref. Mae llawer o'n dysgwyr a'u teuluoedd eisoes wedi'u hynysu ac â chyflyrau iechyd meddwl felly mae gwaith, trefn a chysylltiad rheolaidd yn bwysig iawn.

Dywedodd un rhiant, "Diolch yn fawr am y galwadau ffôn cyson – maen nhw'n helpu fy iechyd meddwl fy hun i gael rhywun yno'n meddwl amdanom ni. A diolch am yr offer celf a chrefft a'r llyfrau lliwio ymwybyddiaeth ofalgar. Roedd fy mhlentyn mor hapus i gael ei bag o bethau hwyliog a rhoddodd wên ar ei hwyneb".

Rydym hefyd yn cefnogi ein pobl ifanc ym mlwyddyn 11 sy'n ymgeisio am le mewn colegau a gwaith i barhau'n gadarnhaol ac yn optimistaidd.

Mae rhiant arall wrth ei bodd y bydd eu mab "yn cyflawni ei freuddwyd o fynychu'r chweched dosbarth gyda'i ffrindiau ysgol gynt".

Mae Microsoft Teams wedi'u helpu i weithio'n agos gyda thimau eraill y Cyngor ac asiantaethau allanol gan gynnwys Gwasanaethau Plant, Llamau, CAMHS, ysgolion a Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd.

Mae'r Gwasanaeth Tiwtora yn falch o gefnogi rhai o'n plant sydd fwyaf agored i niwed ar yr adeg ddigyffelyb hon ac i fod yn #GweithioDrosGaerdydd #GweithioGydanGilydd

Adnoddau llyfrgell ar-lein

Mae amrywiaeth o adnoddau digidol ar gael o Wasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd i bobl eu mwynhau gartref.

Mae gan y gwasanaeth e-lyfrau am ddim, llyfrau e-sain, e-gylchgronau, e-bapurau newydd ac adnoddau hynafiaeth y gall aelodau llyfrgelloedd eu cyrchu o'u dyfeisiau eu hunain.

Gellir gweld y catalog electronig yma:
https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/cy_GB/card_cy/

Mae na adnoddau ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys llyfr newydd (uchod) gan ddarlunydd Axel Scheffler a thîm o arbenigwyr i helpu plant a theuluoedd i ddeall COVID-19.

Gall preswylwyr nad ydynt yn aelodau o lyfrgell hefyd ymuno ar-lein trwy's linc uchod.

Mae'r timau hefyd wedi llunio gweithgareddau ar gyfer y cloi mawr gan gynnwys amser odli, adnoddau Hwyl Hanes i roi rhagflas i bobl o'r cyfoeth o e-adnoddau hanes lleol a threftadaeth sydd ar gael a chanllawiau 'sut i' i helpu defnyddwyr i gael y gorau o'r catalog ar-lein.

Gallwch weld gweithgareddau'r cloi mawr yma:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Llyfrgelloedd-ac-archifau/gweithgareddau-wrth-ynysu/Pages/default.aspx

Sicrhau'r dewis cywir o sgriniau diogelwch COVID-19 ar gyfer tacsis

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant tacsis a llogi preifat i sicrhau bod y sgriniau COVID-19 a ddewisir ac a ddefnyddir yn ddiogel ac nad ydynt yn peryglu'r systemau diogelwch cymhleth a geir mewn cerbydau modern.

Mae’r cyngor wedi derbyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, sy’n amlinellu’r safonau a’r rheoliadau y dylid eu dilyn, ac rydym yn defnyddio’r canllawiau hyn i lywio’r dewis o sgrin.
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cynnwys-syn-benodol-i-sector/cyngor-ar-fasnach-tacsis

Wrth osod rhywbeth mewn cerbyd yn ôl-weithredol, mae’n hanfodol y caiff ei wneud yn ddiogel ac nad yw’n peryglu cyfanrwydd strwythur y cerbyd. Mae gan gerbydau modern nifer o fagiau awyr ac mae’n bwysig na chaiff y